# ASTUDIAETH ACHOS
# SUT MAE GWAHANOL ARDALOEDD YN CAEL EU HADFYWIO?



Penderfynodd yr ysgol ddefnyddio'r gweithgaredd hwn dros dymor cyfan. Roedd y dysgwyr wedi ymgysylltu'n nodedig o dda â'r fideo agoriadol – 'What If All Humans Suddenly Disappeared From The Earth?' Oherwydd hyn, fe wnaeth yr athro ymestyn eu dysgu trwy gynnal cyfres o ymholiadau 'Beth petai...?' ar sail meddyliau o'r fideo, er enghraifft – 'Beth petai'r holl blanhigion yn marw?' a 'Beth petai pawb yn troi'n fegan?' a 'Beth petai'r Ddaear yn peidio â throi?'.

Cafodd dysgwyr eu synnu o ddarganfod bod safle'r ysgol yn arfer bod yn gartref i ysbyty fechan a oedd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer mamolaeth. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynghylch pam nad yw ysbytai mamolaeth yn bodoli mwyach mewn gwirionedd a sut mae cyngor i famau sydd newydd roi genedigaeth wedi newid ers oes Fictoria.

Gan fod yr ysgol ym Merthyr Tudful, cyflwynwyd mwyngloddio glo a'i bwysigrwydd yn y Diwydiant Haearn yng Nghymru, i'r dysgwyr. Edrychodd y dysgwyr ar sut beth oedd bywyd yn yr amseroedd hyn, gan ganolbwyntio ar y caledi a'r amodau byw gwael. Bum yn edrych ar agweddau o'r gweithgaredd 'Twbercwlosis ac aer glân Bannau Brycheiniog' wrth i ni drafod amodau byw ym Merthyr a 'Cronfeydd dŵr, argaeau a cholera' (Bannau Brycheiniog) er mwyn gweld sut roedd colera yn broblem ym Merthyr yng nghanol  y 1800au. Roedd y dysgwyr yn ymgysylltu'n wych â'r agweddau hyn, gan edrych ar glefydau a sut y gallai amodau byw gwael eu gwaethygu.

Aethom yn ôl at y gweithgaredd gwreiddiol a gwneud Tasg 3: Beth yw adfywio?, gan arwain at y dysgwyr yn dod o hyd i ddarn lleol o dir y penderfynon nhw fod angen ei adfywio. Roedd hwn wrth ochr yr ysgol ac roedd yn cynnwys un darn concrit a pheth glaswellt a choed bach.

Ymchwiliodd y dysgwyr i ddarganfod pwy oedd yn berchen ar y tir a chawsant lawer o syniadau gwahanol ar sut y gellid ei adfywio. Cyflwynwyd eu syniadau i gynulleidfa wadd o grŵp amgylcheddol lleol, cynghorydd lleol ac aelodau o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a oedd yn rhedeg busnesau yn yr ardal.

